MYFYRWYR RHYNGWLADOL Â FISA: POLISI FFIOEDD DYSGU 2022/23

Os ydych yn cofrestru fel myfyriwr rhyngwladol ar Fisa (https://www.gov.uk/student-visa) dylech ddarllen a deall y telerau cofrestru a amlinellir isod cyn llofnodi'r ffurflen gofrestru. Mae'n arbennig o bwysig eich bod yn deall eich atebolrwydd a'n polisi ynglŷn â thaliadau ac ad-daliadau.

Os ydych yn Fyfyriwr Rhyngwladol bydd faint o ffioedd dysgu y byddwch yn atebol am eu talu yn dibynnu ar eich **statws ffi** a **lefel** y cwrs rydych chi'n dymuno ei astudio (Addysg Bellach neu Uwch – gweler Atodiad 1).

Mae'n hanfodol bod pob myfyriwr Rhyngwladol posibl yn cysylltu â Gwasanaeth Derbyn y Coleg admissions@colegsirgar.ac.uk yn y lle cyntaf er mwyn ceisio cymorth i nodi ei statws ffi.

TALU FFIOEDD

Rhaid i'ch ffioedd dysgu gael eu talu'n llawn, naill ai o flaen llaw neu wrth gofrestru: Gallwch dalu drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:

Taliad ymlaen llaw:

- Trosglwyddiad Banc i:

Banc Barclays, Canolfan Fusnes, 16 Stryd Vaughan, Llanelli, SA15 3UE	
Côd Didoli:	20-51-32
Enw'r Cyfrif:	Coleg Sir Gâr
Rhif y Cyfrif:	20189243
IBAN	GB31 BARC 2051 3220 1892 43
SWIFTBIC	BARCGB22

- Cardiau Debyd a Chredyd

Talu wrth gofrestru

- Gellir derbyn taliad mewn siec Cyfrif Banc y DU neu Gerdyn Debyd neu Gredyd
- Gwnewch yn siŵr fod eich enw a'ch cyfeiriad yn ymddangos yn glir ar y trosglwyddiad neu siec
- Yn anffodus, ni ellir derbyn taliadau mewn arian parod dros £200.00

Noder **nad** yw ffioedd dysgu yn cynnwys y canlynol:

- Ffioedd arholiadau ail-wneud
- Llyfrau
- Treuliau ychwanegol yn ymwneud â'r cwrs h.y. teithiau, dillad neu ddeunyddiau cwrs.

Os digwydd bod gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn ag unrhyw rai o'r gweithdrefnau uchod, cysylltwch â'r Uned Dderbyn trwy ffonio 01554 748174 neu trwy anfon e-bost i admissions@colegsirgar.ac.uk.

RHOWCH WYBOD I NI AM UNRHYW NEWID

Unwaith eu bod wedi cofrestru gyda'r Coleg rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r Coleg ar unwaith am unrhyw newidiadau yn eu manylion personol: e.e., cyfeiriad, rhif ffôn cartref, rhif ffôn symudol ac ati, trwy ffonio'r Uned Dderbyn ar 01554 748174 neu anfon e-bost i admissions@colegsirgar.ac.uk.

Atodiad 1

colegsirgâr

TALIADAU FFIOEDD DYSGU A CHOFRESTRU RHYNGWLADOL

Addysg Uwch Lawn Amser Ryngwladol - Israddedig	
Cwrs	**Ffi**
HND, Gradd Sylfaen a BSc, BA Blwyddyn 1-3	£ 10,000
Addysg Bellach Ryngwladol	
Cwrs	**Ffi**
Pob cwrs	£ 6,000